



Annwyl rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr,

Bydd eich plentyn yn gwneud penderfyniadau pwysig ar hyd ei daith yn y byd addysg, ac efallai ei fod eisoes wedi cyrraedd y cam o gymryd mwy o reolaeth a chyfrifoldeb dros gynllunio ei yrfa yn y dyfodol eisoes.

Gall Gyrfa Cymru eich cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniadau cywir a fydd yn ei helpu i gyflawni ei uchelgais gyrfa.

Mae hyn yn cynnwys ei gefnogi i: -

- Ddewis pa bynciau, cyrsiau a chymwysterau i'w hastudio ym mlynyddoedd 10 ac 11;
- Deall mwy am aros yn y byd addysg;
- Deall yr offer a'r adnoddau sydd ar gael megis Cwis Buzz, Cwis Paru Swyddi a CrefftGyrfaoedd i gael syniadau am swyddi;
- Deall mwy am ddysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau;
- Cael gwybod mwy am y byd gwaith;
- Gwybod sut i gysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth, cyngor a chymorth.

Edrychwch ar yr adran newydd i rieni ar ein gwefan ble ceir mwy o wybodaeth am ein gwasanaethau, sut rydym yn eu darparu a sut y gallwch gefnogi eich plentyn gyda gwahanol gamau ei daith gyrfa.

**Pa fanylion rydym yn eu cadw a pham?**

Mae'n rhaid i ni gadw data personol am y cwsmeriaid rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu darparu ein gwasanaethau i'ch plentyn yn yr ysgol, y chweched dosbarth neu'r coleg.

Gallwn gysylltu â chi neu eich plentyn drwy e-bost, neges destun neu dros y ffôn i roi gwybod mwy i chi am ein gweithgareddau, digwyddiadau neu wybodaeth sy'n berthnasol i addysg eich plentyn a'i yrfa yn y dyfodol.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn defnyddio data personol, gallwch ddod o hyd i'n hysbysiad preifatrwydd ar-lein.

Os byddai'n well gennych dderbyn copi papur o unrhyw wybodaeth a nodir yma, cysylltwch â Mandy Willianms neu ffoniwch ni ar 0800 028 4844.

Gyrfa Cymru

---

© 2021 Microsoft Dynamics. All rights reserved.

Gyrfa Cymru, Tŷ Churchill, 17 Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH / Careers Wales, Churchill House, 17 Churchill Way, Cardiff, CF10 2HH

Unsubscribe